Minutes of the **remote Council Meeting** held via Zoom video conferencing on, **Monday 25 January 2021** at 6.30 p.m.

**PRESENT: -** His Worship The Mayor Councillor John Wyn Williams (joined the meeting at 6-49pm)
The Deputy Mayor Councillor Owen Hurcum (Chair)
Councillors : Gwynant Roberts, Les Day, John Wynn Jones, Huw Wyn Jones, Colin King, John Martin, Enid Parry, Kieran Jones, Elin Walker Jones, Medwyn Hughes, Gareth Roberts, Mair Rowlands, Nigel Pickavance, Dylan Fernley

Officers:- Iwan Willliams, City Director, Martin Hanks, Acting Town Clerk
Gwynfor Owen (Translator)

**328/19 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors Ifan James, George Turner and Luke Tugwell.

**329/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**
None.

**330/19 PUBLIC PARTICIPATION**
The Chair welcomed three members of the public to the meeting.

**331/19 WALES AUDIT OFFICE REPORT**

The Acting Clerk provided members with an overview of the Report. The 'Nantporth Stadium – City of Bangor Council' Report was published in December 2020, and includes three statutory recommendations for the Council:

1. The Council should receive a report that fully explains the leasing arrangements of Nantporth Stadium and the shareholding and loan agreements the Council has entered into with Nantporth CIC. The report should set out the benefits, potential liabilities and risks that these arrangements and agreements bring to the Council.
2. All decisions of significant matters should be discussed by the Council so that it can ensure it has received appropriate advice, including legal advice, prior to making decisions and entering legal agreements.
3. Decisions made by the Council or its committees where members of the public and press are excluded from the meeting should be properly minuted and precisely recorded.

The Acting Clerk offered an opportunity for members of the public to comment. No comments were made.

The Council discussed the Wales Audit Office recommendations and resolved the following:

1. The Council acknowledged that actions were required to prevent a recurrence of the issues raised in the report. However, these actions had been taken during 2020, including the presentation of a report to Council on 9th March 2020 detailing the arrangement between Nantporth CIC and the establishment of a Council sub-committee to oversee communications and the future arrangements between the Council and Nantporth CIC.
2. The Council accepted the Wales Audit Office Report in full.
3. It was concluded that no further action was required by the Council as the necessary actions had been taken.

**332/19 MINUTES**

a) Council Meeting – 2 November 2020 – To approve as a correct record – Page 58 – **Approved with minor amendment**
b) Planning & Amenities Committee – 2 November 2020 – to approve as a correct record – Page 59 – **Approved**
c) Planning & Amenities Committee – 23 November 2020 – to approve as a correct record – Page 60 – **Approved**
d) Finance and General Purposes Committee 23 November 2020 – to receive and approve – Pages 61 & 62 – **Approved with minor amendment**
e) Planning & Amenities Committee – 14 December 2020 – to approve as a correct record – Page 63 – **Approved. The Council requested the plan for the Sakura Cherry Trees plan in Ashley Fields be expedited**
f) Planning & Amenities Committee – 18 January 2021 – to approve as a correct record – Page 64 & 65 – **The City Director stated that a slight expansion was made to the note on C21/0006/11/TC in order to provide further clarification. Approved**

**333/19 UPDATE ON SAKURA TREES**
The City Director provided an update on the Sakura Cherry Trees Project. 65 Sakura trees will be delivered to Bangor in March 2021. Whilst the majority will be planted in Ashley Jones fields, discussions continue on planting some of the trees in other locations around Bangor. Gwynedd Council and Bangor University have been contacted to ascertain their interest.
**RESOLVED**: To arrange a site meeting between the Bangor City Council Greening Committee and a tree expert from Bangor University prior to finalising the location.

**334/19 SIGNING OF DOCUMENTS**
**RESOLVED**: That authority be given for the signing of documents on the City Council's behalf pertinent to open decisions of the Council taken at this Meeting.

The Meeting closed at 7.32 pm

Cofnodion **Cyfarfod y Cyngor o bell** a gynhaliwyd trwy fideo-gynadledda Zoom, **nos Lun 25 Ionawr 2021** am 7.33 p.m.

**YN BRESENNOL: -** Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd John Wyn Williams
Y Dirprwy, Faer, y Cynghorydd Owen Hurcum (yn y Gadair)
Cynghorwyr : Gwynant Roberts, Les Day, JohnWynn Jones, Huw Wyn Jones, Colin King, John Martin, Enid Parry, Kieran Jones, Elin Walker Jones, Medwyn Hughes, Gareth Roberts, Mair Rowlands, Nigel Pickavance, Dylan Fernley

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig, Martin Hanks, Clerc y Dref Dros Dro
Gwynfor Owen (Cyfieithydd)

**328/19 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ifan James, George Turner a Luke Tugwell.

**329/19 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim

**330/19 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Croesawodd y Cadeirydd dri aelod o'r cyhoedd i'r cyfarfod.

**331/19 ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

Rhoddodd Clerc y Dref dros dro drosolwg o'r Adroddiad i'r aelodau. Cyhoeddwyd Adroddiad 'Stadiwm Nantporth – Cyngor Dinas Bangor' ym mis Rhagfyr 2020, ac mae'n cynnwys tri argymhelliad statudol i'r Cyngor :

1. Dylai'r Cyngor dderbyn adroddiad sy'n egluro'n llawn trefniadau lesio Stadiwm Nantporth a'r trefniadau o ran cyfranddaliadau a benthyciad a wnaeth y Cyngor gyda Nantporth CIC. Dylai'r adroddiad ddangos y manteision, y rhwymedigaethau posibl a'r risgiau y mae'r trefniadau a'r cytundebau hyn yn eu cyflwyno i'r Cyngor.
2. Dylai pob penderfyniad o bwys gael eu trafod gan y Cyngor fel y gall sicrhau ei fod wedi cael y cyngor priodol, yn cynnwys cyngor cyfreithiol, cyn gwneud penderfyniadau a llunio cytundebau cyfreithiol.
3. Dylai penderfyniadau a wneir gan y Cyngor neu ei bwyllgorau lle mae aelodau'r cyhoedd a'r wasg yn cael eu heithrio o'r cyfarfod gael eu cofnodi'n gywir ac yn fanwl.

Rhoddodd Clerc y Dref dros dro gyfle i aelodau'r cyhoedd wneud sylwadau. Ni chafwyd sylwadau.

Trafododd y cyngor argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru a phenderfynwyd y canlynol:

1. Roedd y Cyngor yn cydnabod fod angen gweithredu er mwyn atal y materion a godwyd yn yr adroddiad rhag digwydd eto. Fodd bynnag, roedd y camau hyn wedi cael eu cymryd yn ystod 2020, yn cynnwys cyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar 9 Mawrth 2020 yn manylu ar y trefniant rhwng Nantporth CIC a sefydlu is-bwyllgor o'r Cyngor i oruchwylio cyfathrebu a'r trefniadau yn y dyfodol rhwng y Cyngor a Nantporth CIC.
2. Roedd y Cyngor yn derbyn Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn llawn.
3. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen i'r Cyngor weithredu ymhellach gan fod y camau angenrheidiol wedi'u cymryd.

**332/19 COFNODION**

a) Cyfarfod y Cyngor - 2 Tachwedd 2020 - Cymeradwyo fel cofnod cywir - Tudalen 58- **Cymeradwywyd gyda mân gywiriad**
b) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau – 2 Tachwedd 2020 – cymeradwyo fel cofnod cywir - Tudalen 59 – **Cymeradwywyd**
c) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau – 23 Tachwedd – cymeradwyo fel cofnod cywir - Tudalen 60 – **Cymeradwywyd**
d) Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol – 23 Tachwedd 2020 – derbyn a chymeradwyo - Tudalennau 61 a 62 – **Cymeradwywyd gyda mân gywiriad**
e) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau- 14 Rhagfyr 2020 - cymeradwyo fel cofnod cywir- Tudalen 63 - **Cymeradwywyd. Gofynnodd y Cyngor i'r cynllun ar gyfer y Coed Ceirios Sakura yng Nghaeau Ashley gael ei roi ar waith ar unwaith.**

**TUDALEN 67**

f) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau 2021 – cymeradwyo fel cofnod cywir – Tudalennau 64 a 65 – **Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod estyniad bach wedi'i wneud i'r nodyn ar C21/0006/11/TC er mwyn cael mwy o eglurder. Cymeradwywyd.**

**333/19 DIWEDDARIAD AR Y COED SAKURA**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Dinesig ddiweddariad ar Brosiect y Coed Ceirios Sakura. Bydd 65 o goed Shakura yn cael eu danfon i Fangor ym mis Mawrth 2021. Bydd y mwyafrif yn cael eu plannu yng nghaeau Ashley Jones, ac mae trafodaethau'n parhau ar blannu rhai o'r coed mewn lleoliadau eraill o gwmpas Bangor. Cysylltwyd â Chyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor i weld a oedd ganddynt ddiddordeb.
**PENDERFYNWYD**: Trefnu cyfarfod safle rhwng Pwyllgor Gwyrddio Cyngor Dinas Bangor ac arbenigwr coed o Brifysgol Bangor cyn dod i benderfyniad terfynol ar y lleoliad.

**334/19 LLOFNODI DOGFENNAU**

**PENDERFYNWYD**: Rhoi awdurdod i lofnodi dogfennau ar ran Cyngor y Ddinas sy'n berthnasol i benderfyniadau agored y Cyngor a wnaed yn y Cyfarfod hwn.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.32 pm